CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 17 Mawrth 2022 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 11 Mawrth 2022.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir McKerlich (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

149 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Nigel Howells. Byddai'r Cynghorwyr Melbourne a Pip Hill-John yn hwyr yn mynychu'r cyfarfod.

150 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â’r Cod Ymarfer Aelodau.

| **Cynghorydd** | **Eitem** | **Natur y Buddiant** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Naughton | Eitem 10 | Aelod o’r Teulu yn cael ei gyflogi gan Fws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Molik | Eitem 9 | Prif Swyddog Gweithredol Golwg Cymru |
| Y Cynghorydd Cowan | Eitem 14 - Datganiad y Cynghorydd Michael | Gweithiwr rhan amser, Believe - cymorth Rhoddwr Organau |
| Y Cynghorydd Bowen-Thompson | Eitem 7 | Yn ymwneud ag is-grŵp Tasglu fel Prif Swyddog Gweithredol Cymru Ddiogelach |

151 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion 3 Mawrth 2022 fel cofnod cywir ac fe’u llofnodwyd gan yr Arglwydd Faer.

152 : CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Gofynnodd Mr Rhydian Payne y cwestiwn canlynol o'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, y Cynghorydd Goodway.

Byddwch yn ymwybodol bod hen safle Brandon Tool Hire ar waelod Bryn Tredelerch wedi ei adael yn wag ers dros ddegawd. A all yr Aelod Cabinet gynghori pa gynlluniau sydd gan berchennog y safle i ddod â'r safle yn ôl i ddefnydd buddiol, ac a all y Cyngor ddefnyddio ei ddylanwad i gyflwyno cynllun datblygu addas allai ddod â swyddi newydd i'r rhan hon o'r Ddinas?

Ateb - Y Cynghorydd Goodway

Nid yw'r tir dan sylw ym mherchnogaeth y Cyngor, ond mae gan y safle yn 599 Heol Casnewydd, a oedd yn arfer cael ei feddiannu gan Brandon Tool Hire, ganiatâd cynllunio dilys a roddwyd yn 2017. Mae hyn yn darparu ar gyfer dymchwel yr unedau masnachol ar y safle a chodi datblygiad preswyl newydd sy'n cynnwys 32 o fflatiau hunangynhwysol.

Nid oes gan y Cyngor fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol bwerau i fynnu bod datblygwr yn gweithredu cydsyniad neu ganiatâd cynllunio.

Cwestiwn Atodol - Mr Payne

Rwy'n gwerthfawrogi bod pwerau'r Cyngor yn y sefyllfa hon yn gyfyngedig, ond a fyddech chi, fel Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros Ddatblygu Economaidd, yn gofyn i'ch swyddogion weithio gyda'r tirfeddiannwr mewn ymgais i gyflwyno datblygiad addas, un a fydd, gobeithio, yn gweld swyddi'n dychwelyd i'r safle'n fuan.

Ateb - Y Cynghorydd Goodway

Rwy'n hapus i wneud hynny, mae gwybodaeth y cefais ond awr yn ôl, yn awgrymu y gallai fod cymhlethdodau gyda'r safle hwnnw o ran pibell garthffosiaeth sy'n mynd drwyddo, a allai ei gwneud yn anaddas ar gyfer datblygiad preswyl, ac yn yr achos hwnnw hoffwn ei weld yn dychwelyd fel safle cyflogaeth oherwydd mai ychydig iawn o safleoedd cyflogaeth sydd ar ôl yn y Ddinas, felly mae'n sgwrs y byddaf yn cael gyda fy swyddogion i weld a allwn ni fwrw ymlaen i gael sgwrs gyda pherchennog y tir er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r safle hwnnw.

153 : DEISEBAU

Cyflwynwyd y deisebau canlynol:

| **Cynghorydd** | **Nifer y Llofnodion Perthnasol** | **Natur y Ddeiseb** |
|---|---|---|
| Y Cyng. Gavin Hill-John | 290 | Gwrthwynebu'r datblygiad adeiladu ar Fferm Radur, Fferm Goetre Fach, a Gorsaf Rheilffordd Radur |
| Y Cynghorydd Ed Stubbs | 436 | Galw am adnewyddu Parc Sblot |

154 : CYHOEDDIADAU’R ARGLWYDD FAER

Gwnaeth yr Arglwydd Faer y cyhoeddiadau canlynol:

- Dyfarnwyd gwobrau ganddo yn Noson Adrannau’r Gaeaf a Wobrwyo HMS Cambria i'r rhai oedd wedi mynd tu hwnt i’r disgwyl a gwneud cyfraniad sylweddol i HMS Cambria;
- Ar 8 Mawrth 2022 daeth ef, ynghyd â staff a disgyblion i Seremoni Plannu Coed yn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban;
- Ar 14 Mawrth cynhaliodd Seremoni Codi Baner Dydd y Gymanwlad yng Nghyngor Caerdydd; mynychodd cynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau; a
- Diolch i'r holl Gynghorwyr sy’n camu lawr ym mis Mai 2022 am eu cyfraniad i Gaerdydd dros y blynyddoedd.

155 : TASGLU CYDRADDOLDEB HILIOL

Cynigiodd y Cynghorydd Ebrahim adroddiad y Tasglu a oedd yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Gorffennaf 2020 a Mawrth 2022. Amlygodd, dros y deunaw mis diwethaf, fod Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd wedi cael y dasg o nodi cyfleoedd ymarferol ar gyfer newid i wella cydraddoldeb hiliol yng Nghaerdydd a dod o hyd i ffyrdd newydd o ddefnyddio dulliau lleol i wella canlyniadau i drigolion o leiafrifoedd ethnig. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a gwblhawyd gan Dasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd rhwng Gorffennaf 2020 - Mawrth 2022.

Galwodd yr Arglwydd Faer am Bleidlais ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

**Canlyniadau'r Bleidlais:**

**O blaid: 42**
Y Cynghorwyr Ahmed, Dilwar Ali, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Cunnah, De’Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Hinchey, Jacobsen, Keith Jones, Owen Jones, Jones-Pritchard, Joyce, Lay, Lent, Lister, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Jackie Parry, Patel, Mia Rees, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Huw Thomas, Thorne, Weaver, Wild a Wong.

**Yn erbyn: 1**
Y Cynghorydd Shaun Jenkins

**Yn ymatal: 29**
Y Cynghorwyr Ashgar Ali, Berman, Boyle, Carter, Cowan, Driscoll, Ford, Gibson, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hopkins, Hudson, Kelloway, Lancaster, McEvoy, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Keith Parry, Philips, Dianne Rees, Robson, Sandrey, Taylor, Graham Thomas, Walker, Williams, Wood

**Ymddiheuriadau: 1**
Y Cynghorydd Howells

**Absennol am y bleidlais: 1**
Y Cynghorydd Melbourne

PENDERFYNWYD:

PASIWYD yr argymhellion yn yr adroddiad.

156 : STRATEGAETH CAERDYDD DDWYIEITHOG 2022-27

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi cynnwys Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 a baratowyd yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac a argymhellwyd i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo.

Cynigiwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Huw Thomas.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Owen Jones.

Galwodd yr Arglwydd Faer am Bleidlais ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

**Canlyniadau'r Bleidlais:**

**O blaid: 70**
Y Cynghorwyr Ahmed, Dilwar Ali, Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Hudson, Jacobsen, Keith Jones, Owen Jones, Jones-Pritchard, Joyce, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a Wood.

**Yn erbyn: 2**
Y Cynghorwyr Jenkins a Kelloway

**Yn absennol: 1**
Y Cynghorydd Asghar Ali

**Ymddiheuriadau: 1**
Y Cynghorydd Howells

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD y Cyngor i'r canlynol:

1) cymeradwyo Strategaeth y Gymraeg 5 Mlynedd Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 (Atodiad I)

2) Nodi cynnwys yr Adolygiad Annibynnol o Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022 (Atodiad V).

157 : ADRODDIAD AR ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH CAERDYDD A BRO MORGANNWG 2022

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi ac ystyried Asesiad Anghenion Poblogaeth 2022 (sydd ynghlwm yn Atodiad 1) yn unol â gofynion Rhan 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Argymell bod y Cyngor yn ystyried a chymeradwyo Asesiad Anghenion Poblogaeth 2022 yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2022, ac ailedrych ar yr Asesiad a'i ddiweddaru mewn meysydd perthnasol yn dilyn rhyddhau data Cyfrifiad 2021.

Cynigiodd y Cynghorydd Elsmore yr adroddiad.

Eiliodd y Cynghorydd Hinchey yr adroddiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

**Canlyniad y bleidlais:**

**O blaid: 70**
Y Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Keith Jones, Owen Jones, Jones-Pritchard, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a Wood.

**Yn erbyn: 3**
Cynghorwyr Ford, McEvoy a Keith Parry

**Ymddiheuriadau: 1**
Y Cynghorydd Howells

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Cyngor i:

Nodi a chymeradwyo Asesiad Anghenion y Boblogaeth 2022 (ynghlwm yn Atodiad 1) yn unol â gofynion Rhan 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

158 : ADRODDIAD POLISI CYFLOGAU 2022/2023

*(Datganodd pob Prif Swyddog perthnasol fuddiant yn yr eitem hon a gadawsant y cyfarfod yn ystod ystyriaeth yr eitem hon)*

Argymhellodd yr adroddiad fod y Cyngor yn cytuno ar Ddatganiad Polisi Cyflog ar gyfer 2022/23, yn unol â gofynion Deddf Lleoliaeth 2011.

Cynigiodd y Cynghorydd Weaver yr adroddiad.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Thomas.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

**Canlyniad y bleidlais:**

**O blaid: 49**
Y Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Ebrahim, Elsmore, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Hinchey, Hopkins, Jacobsen, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Lay, Lent, Lister, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Molik, Naughton, Jackie Parry, Patel, Sandrey, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Huw Thomas, Thorne, Weaver, Wild, Wong a Wood

**Yn erbyn: 3**
Cynghorwyr Ford, McEvoy a Keith Parry

**Yn ymatal: 21**
Y Cynghorwyr Cowan, Driscoll, Gibson, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hudson, Jenkins, Jones-Pritchard, Kelloway, Lancaster, Melbourne, Morgan, Owen, Parkhill, Philips, Dianne Rees, Mia Rees, Adrian Robson, Graham Thomas, Walker a Williams.

**Ymddiheuriadau: 1**
Y Cynghorydd Howells

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor:

1. I gadarnhau bod y penderfyniad i gytuno ar y Datganiad Polisi Cyflog hwn yn gytundeb i weithredu'r cynnydd cyflog costau byw a bennir gan y corff negodi perthnasol sy'n weithredol o 1 Ebrill 2022, fel y rhoddwyd cyfrif amdano yn y Gyllideb a bennwyd ac y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 3 Mawrth 2022.

2. I benderfynu y bydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol sy'n deillio o'r cytundebau cyflog cenedlaethol a benderfynir ar ôl y dyddiad hwn na ellir eu bodloni o fewn Cyllideb gytûn y Cyngor yn cael eu cyfeirio at y Cyngor i'w hystyried a'u penderfynu.

3. I gymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflog (2022/23) Atodiad 1.

159 : DIWEDDARIADAU I'R CYFANSODDIAD

Roedd yr adroddiad hwn er mwyn galluogi'r Cyngor i ystyried newidiadau a argymhellir i'r Cyfansoddiad mewn perthynas â:

(a) Gofynion deddfwriaethol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mewn perthynas â:
   (i) Threfniadau cyfarfod aml-leoliad a darllediad electronig o gyfarfodydd llawn y Cyngor;
   (ii) Cynorthwywyr i'r Cabinet;
   (iii) Rhannu swyddi ar gyfer Aelodau Cabinet;
   (iv) Canllaw i'r Cyfansoddiad;
   (v) Cynllun Deiseb; a
   (vi) Swyddogaethau statudol y Prif Weithredwr.

(b) Rheolau Trefn Cyfarfod y Cyngor ar welliannau i Hysbysiadau Cynnig, a

(c) Diweddariadau deddfwriaethol amrywiol a diweddariadau eraill a drafftio diwygiadau.

Cynigiodd y Cynghorydd Goodway yr adroddiad.

Cafodd yr adroddiad ei eilio gan y Cynghorydd Jones-Pritchard.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor:

1. I nodi'r wybodaeth a nodir yn yr adroddiad a'r atodiadau;

2. Cymeradwyo'r gwelliannau Cyfansoddiad a nodir yn Atodiad C (Cyfansoddiad - diwygiadau drafft), i ddod i rym ar y dyddiadau penodedig, a gofyn i'r Swyddog Monitro ddiweddaru'r Cyfansoddiad yn unol â hynny.

160 : ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2021

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaethau Democrataidd yn ystod 2021.

Cynigiodd y Cynghorydd Jones-Pritchard yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Cyngor ar yr argymhellion fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

161 : HYSBYSIAD CYFANSAWDD O GYNNIG

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor ar y Cynnig Cyfansawdd canlynol:

Mae’r Cyngor hwn yn nodi:

Ansawdd a gwerth gweithwyr ieuenctid a gwaith ieuenctid sy'n cefnogi pobl ifanc yng Nghaerdydd ac yn llongyfarch Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd ar gael y Marc Ansawdd Gwaith Ieuenctid Lefel Efydd.

Bod gweithwyr ieuenctid yn fodelau rôl gwerthfawr i bobl ifanc.

Y rôl allweddol sydd gan waith ieuenctid o ran cefnogi pobl ifanc i wireddu eu potensial llawn a bod gwaith ieuenctid yn broses addysgol benodol ar draws amrywiaeth o leoliadau a allai gynnwys gweithwyr ieuenctid ar y stryd, mentoriaid ieuenctid a gweithwyr ieuenctid mewn canolfannau.

Gall canolfannau ieuenctid fod yn rhan bwysig o gymunedau yn ogystal â'r gwaith a wneir gan ein timau gwaith ieuenctid ar y stryd, mentoriaid ieuenctid sy'n gweithredu ar draws y ddinas gan ymateb i angen lleol gan weithio gyda rhai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn y ddinas lle bynnag y maent a'n tîm Addysg Heblaw yn yr Ysgol sy'n cefnogi rhai o ddysgwyr mwyaf agored i niwed y ddinas.

Gwaith caled ac ymroddiad y gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc ledled Caerdydd.

Y partneriaid sy'n gweithio gyda'r Cyngor i ddarparu gwaith ieuenctid o safon yng Nghaerdydd gan gynnwys y rhai sy'n elwa o Grantiau Arloesi Ieuenctid a chymorth ariannol y cyngor i Fenter Caerdydd gynnal darpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg ledled y ddinas.

Nid yw anghenion pobl ifanc wedi'u cyfyngu i un arc benodol o Gaerdydd ac mae angen ym mhob ward ond bod anghenion rhai grwpiau o bobl ifanc ac ardaloedd yn fwy penodol gyda'r toriad mewn Credyd Cynhwysol, costau byw cynyddol a nifer cynyddol y plant a phobl ifanc sy'n mynd i dlodi. Gall gwaith ieuenctid hefyd chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael ag effaith wahaniaethol covid ar ein pobl ifanc.

Mae'r cysyniad Cymdogaeth 15 munud yn cynnwys pobl ifanc, eu hanghenion a mynediad i gyfleusterau.

Gwaith gwych Addewid Caerdydd a mentoriaid ieuenctid ledled y ddinas ac ym mhob un o'n hysgolion sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant o 8.8% yn 2010, yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru, i 1.5% ar adeg o ansicrwydd economaidd mawr.

Y gwaith a wnaed gan weithwyr ieuenctid o amgylch y ddinas dros yr haf gan gynnwys y bws ieuenctid .

Gwaith y tîm ieuenctid digidol wrth ymgysylltu â phobl ifanc yn rhiwthwir.

Mae Cyngor Caerdydd yn croesawu'r penderfyniad i gynnal adolygiad o'n darpariaeth gwasanaeth ieuenctid er mwyn sicrhau y gallwn ddiwallu anghenion pobl ifanc a datblygu buddsoddiad cynaliadwy, hirdymor mewn gwasanaethau ieuenctid.

Mae'r cyngor hwn yn credu y dylai'r adolygiad gynnwys:

Ehangu mynediad yn ogystal â sicrhau bod gweithwyr ieuenctid cymwysedig yn parhau i gwmpasu Caerdydd gyfan gan eu galluogi i gyrraedd pobl ifanc lle bynnag y maent a phryd bynnag y mae eu hangen.

Sicrhau gweithwyr ieuenctid, yr heddlu, addysg, gwasanaethau plant, timau cyfiawnder ieuenctid, diogelwch cymunedol a'r 3ydd sector yn parhau i gydweithio'n agos fel bod yr arfer gorau ar waith ledled Caerdydd gyfan mewn materion sy'n ymwneud â phobl ifanc.  Sicrhau bod gan bobl ifanc, waeth ble yn y ddinas y maent yn byw, fynediad i gyfleusterau ieuenctid a'u bod yn gallu cael gafael ar gymorth yn seiliedig ar waith ieuenctid pan fydd ei angen arnynt.

'Sut y gallwn rannu arfer da wrth sicrhau ansawdd arferion gwaith ieuenctid ar draws yr holl wasanaethau cymorth ieuenctid yn effeithiol ac yn gwrando ar leisiau pobl ifanc, gan ddarparu hyfforddiant gwaith ieuenctid i bob sefydliad sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Datblygu strategaeth gweithlu sy’n buddsoddi mewn gweithlu amrywiol a chynhwysol sy’n cynrychioli ein cymunedau ac sy’n darparu cyfleoedd i bobl ifanc trwy brentisiaethau a hyfforddeiaethau corfforaethol.

Mae Cyngor Caerdydd yn cydnabod, wrth i ni anelu at fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant, fod yn rhaid i'r Cyngor barhau i ymgysylltu â phobl ifanc eu hunain am y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.

Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru o ran rhoi gwasanaethau ieuenctid ar sail statudol.

162 : DATGANIADAU AELODAU'R CABINET

Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau a ofynnwyd ar y canlynol:

- Diolch i fusnesau lleol ledled Caerdydd ac yn arbennig Rhiwbeina am eu hymdrechion codi arian ar gyfer argyfwng Wcráin.

Yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad - Y Cynghorydd Weaver.
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Methiant yr Adroddiad Gorchwyl a Gorffen Craffu ar Weithio Gartref ac Ystwyth i gwrdd â'r dyddiad cau ar gyfer y Cyfarfod Cabinet ar 10 Mawrth 2022.

Yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau - Y Cynghorydd Thorne.
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Dyluniad to fflat yn eiddo newydd y Cyngor

- Diolch i Staff yr Hybiau am eu gwaith a'u cynlluniau i wella'r gwasanaeth ymhellach.

Yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd - Y Cynghorydd Michael
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Casgliadau Gwastraff Gardd

- Canolfan Ailgylchu Naid

- Strategaeth Ddŵr mewn Ysgolion

- Cartref Cŵn Caerdydd

Yr Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd - Y Cynghorydd Hinchey
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Recriwtio a Chadw

- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol - Fframwaith

Yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles - Y Cynghorydd Elsmore.
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Gwasanaeth Dementia Gogledd Caerdydd

- Cynllun Gweithredu Sy'n Dda i Bobl Hŷn

- Strategaeth Toiledau

Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau - Y Cynghorydd Merry.
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Adolygiad Estyn o wasanaeth Addysg Cyngor Caerdydd

- o Bwriad i ehangu Ysgol Uwchradd Caerdydd
- o Adolygiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid

Yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth - Y Cynghorydd Caro Wild
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- o Ail-wynebu Ffyrdd a Phalmentydd
- o Llwybr Beicio ar Heol Casnewydd
- o Camerâu Gorfodi Traffig mewn Lleoliadau Ysgolion
- o Gorfodi materion parcio ar y pafin

Yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu - Y Cynghorydd Goodway.
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- o Dylunio Datblygu Canol y Ddinas
- o Adfywio Bae Caerdydd - Ymgysylltu â Dinasyddion

Datganiad yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden - Y Cynghorydd Bradbury.
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- o Achosion Ffliw Adar ym Mharc y Rhath
- o Coed Caerdydd - Cherry Trees
- o Neuadd Dewi Sant - prisiau tocynnau
- o Prisiau Claddu

163 : HYSBYSIAD O GYNNIG - 1

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd McEvoy ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Parry wedi dod i law i'w ystyried. Derbyniwyd un Diwygiad oddi wrth y Grŵp Llafur.

Gwahoddwyd y Cynghorydd McEvoy gan yr Arglwydd Faer i gynnig ei ddiwygiad fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ystyried:

Ddod ag adroddiad i Gyngor yn y dyfodol yn amlinellu'r manteision economaidd a diwylliannol gŵyl banc Dydd Gŵyl Dewi, gan gynnwys neilltuo cymorth ariannol a chymorth mewn da ar gyfer pob gorymdaith sifil Dewi Sant yn y dyfodol.

At hynny, mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru’r pŵer i greu gwyliau banc i Gymru (drwy Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971) - yn yr un modd ag sy'n digwydd eisoes yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Eiliwyd y Cynnig yn ffurfiol gan y Cynghorydd Parry.

Derbyniwyd diwygiad i'r cynnig oddi wrth y Grŵp Llafur. Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Michael i gynnig y diwygiad fel a ganlyn:

Dileu o:
'Ddod ag adroddiad ....... Gogledd Iwerddon'

Disodlwch gyda:
'Adroddiad ar y posibilrwydd o wyliau ar 1 Mawrth yn ystod y weinyddiaeth nesaf'.

**Byddai'r Cynnig Diwygiedig yn darllen fel a ganlyn:**

Mae'r Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ystyried:

Adroddiad ar y posibilrwydd o wyliau ar 1 Mawrth yn ystod y weinyddiaeth nesaf

Eiliwyd y diwygiad yn ffurfiol gan y Cynghorydd Patel.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a’r diwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd McEvoy i ymateb i’r eitemau a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Ymatebodd y Cynghorydd McEvoy i'r materion a godwyd a chadarnhaodd na dderbyniwyd y Diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am Bleidlais ar y Diwygiad fel y'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Michael a'i eilio gan y Cynghorydd Patel.

**Canlyniadau'r Bleidlais:**

**O blaid: 39**
Y Cynghorwyr Ahmed, Dilwar Ali, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Cunnah, De’Ath, Derbyshire, Ebrahim, Elsmore, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Hinchey, Jacobsen, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Lay, Lent, Lister, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Jackie Parry, Patel, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Huw Thomas, Thorne, Weaver, Wild a Wong.

**Yn erbyn: 34**
Y Cynghorwyr Asghar Ali, Berman, Boyle, Carter, Cowan, Driscoll, Ford, Gibson, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hopkins, Hudson, Jenkins, Jones-Pritchard, Kelloway, Lancaster, McEvoy, Melbourne, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Keith Parry, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Taylor, Graham Thomas, Walker, Williams a Wood.

**Ymddiheuriadau: 1**
Y Cynghorydd Howells

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Michael i siarad cyn i bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd, fel y'i diwygiwyd gan y Grŵp Llafur, gael ei chynnal.

**Canlyniadau'r Bleidlais**

**O blaid: 70**
Y Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, De’Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Keith Jones, Owen Jones, Jones-Pritchard, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a Wood.

**Yn erbyn: 2**
Y Cynghorwyr Jenkins a Kelloway

**Ymddiheuriadau: 1**
Y Cynghorydd Howells

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd fel y’i diwygiwyd.

164 : HYSBYSIAD O GYNNIG - 2

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Taylor ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Wood wedi dod i law i'w ystyried. Derbyniwyd un Diwygiad oddi wrth y Grŵp Llafur.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Taylor gan yr Arglwydd Faer i gyflwyno'i gynnig fel a ganlyn:

**Gweithredu ar Ddiogelwch Tân Adeiladau**

Mae'r cyngor hwn yn pryderu'n fawr bod miloedd o bobl yn dal i fyw mewn adeiladau sydd â diffygion diogelwch tân a allai fod yn beryglus flynyddoedd yn ddiweddarach.

Mae'r cyngor hwn yn nodi bod Cronfa Diogelwch Adeiladau a Chynllun Pasbort Diogelwch Adeiladau Llywodraeth Cymru wedi'u cynllunio i nodi pa adeiladau sydd â methiannau diogelwch tân a chost adfer y rheini.

Mae'r cyngor hwn yn nodi â gofid nad yw lesddeiliaid yn agosach at ateb i'r broblem a'u bod yn wynebu biliau mawr er mwyn ariannu gwaith adfer a chynlluniau Gwyliadwriaeth.

Mae'r cyngor hwn o'r farn na ddylai unrhyw lesddeiliad ysgwyddo'r baich o unioni methiannau datblygwyr a'r system diogelwch adeiladau - boed yn landlordiaid neu fel arall.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:

- Gyflwyno adroddiad ar sefydlu Canolfan Cymorth Diogelwch Adeiladau i ddarparu cyngor ac arweiniad wyneb yn wyneb ac ar-lein ar faterion fel: cwblhau ceisiadau am gyllid ar gyfer gwahanol gronfeydd ariannu'r Llywodraeth; cyngor ar broses EWS1 a chynghori lesddeiliaid am eu hawliau.

- Unwaith y caiff canlyniad y Gronfa Diogelwch Adeiladau ei gyhoeddi, cyflwyno adroddiad ar gost darparu eithriad treth gyngor i'r holl breswylwyr y mae'r argyfwng diogelwch tân yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.

Eiliwyd y cynnig yn ffurfiol gan y Cynghorydd Wood.

Derbyniwyd diwygiad i'r cynnig oddi wrth y Grŵp Llafur. Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Thorne i gynnig y diwygiad fel a ganlyn:

**Gweithredu ar Ddiogelwch Tân Adeiladau**
Dileu: 'Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod ........ Cynlluniau Deffro a Gwylio.
Rhowch y canlynol ar ôl '....landlordiaid neu fel arall':

Croesawu dull Llywodraeth Cymru o sicrhau bod adfer adeiladau yn cael ei wneud ar sail gyfannol, sy'n golygu bod rhaid i ni fynd ymhellach i amnewid cladin nad yw'n cydymffurfio a delio â'r ystod o faterion diogelwch tân a geir mewn rhai adeiladau, a allai gynnwys ffactorau megis adrannu annigonol a'r angen am reoli mwg neu

systemau atal tân, oherwydd dim ond drwy fynd i'r afael â'r ystod lawn o faterion diogelwch tân yn y modd hwn y gall trigolion fod yn hyderus bod yr adeiladau hyn yn cael eu dychwelyd i gyflwr 'addas i'w bwrpas'.

Yn cydnabod ac yn cefnogi'r cais sylweddol am gyllid a gyflwynwyd gan y Cyngor i Lywodraeth Cymru i gefnogi gosod systemau chwistrellu ym mhob adeilad sydd wedi'u heffeithio yn y ddinas i fynd i'r afael â'r risg o ddiogelwch tân ar unwaith a lleihau'r costau ychwanegol presennol sy'n cael eu hysgwyddo gan drigolion'.

Ar ôl 'Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:', ychwanegu

- Ysgrifennu at Lywodraeth y DU i sicrhau bod dull gweithredu ledled y DU yn cael ei wneud i drafod a defnyddio cyllid a godir yn sgil cyfraniadau diwydiant

Ar ôl 'Dwyn ymlaen a' dileu o 'Diogelwch Adeiladu ........ mae eu hadroddiadau'n adrodd' ac yn disodli hynny gydag 'adroddiad sy'n amlinellu cynllun y Cyngor i weithredu ac ymateb i ofynion Bil Diogelwch Adeiladu Llywodraethau'r DU gan gynnwys cyhoeddi'r holl Orchmynion angenrheidiol, mewn cyswllt mewn cysylltiad â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Dileu'r paragraff cyfan sy'n dechrau 'Unwaith y bydd canlyniad y .......'

**<u>Byddai'r Cynnig Diwygiedig yn darllen fel a ganlyn:</u>**

**Gweithredu ar Ddiogelwch Tân Adeiladau**
Mae'r cyngor hwn yn pryderu'n fawr bod miloedd o bobl yn dal i fyw mewn adeiladau sydd â diffygion diogelwch tân a allai fod yn beryglus flynyddoedd yn ddiweddarach.

Mae'r cyngor hwn o'r farn na ddylai unrhyw lesddeiliad ysgwyddo'r baich o unioni methiannau datblygwyr a'r system diogelwch adeiladau - boed yn landlordiaid neu fel arall.

Croesawu dull Llywodraeth Cymru o sicrhau bod adfer adeiladau yn cael ei wneud ar sail gyfannol, sy'n golygu bod rhaid i ni fynd ymhellach i amnewid cladin nad yw'n cydymffurfio a delio â'r ystod o faterion diogelwch tân a geir mewn rhai adeiladau, a allai gynnwys ffactorau megis adrannu annigonol a'r angen am reoli mwg neu systemau atal tân, oherwydd dim ond drwy fynd i'r afael â'r ystod lawn o faterion diogelwch tân yn y modd hwn y gall trigolion fod yn hyderus bod yr adeiladau hyn yn cael eu dychwelyd i gyflwr 'addas i'w bwrpas'.

Yn cydnabod ac yn cefnogi'r cais sylweddol am gyllid a gyflwynwyd gan y Cyngor i Lywodraeth Cymru i gefnogi gosod systemau chwistrellu ym mhob adeilad sydd wedi'u heffeithio yn y ddinas i fynd i'r afael â'r risg o ddiogelwch tân ar unwaith a lleihau'r costau ychwanegol presennol sy'n cael eu hysgwyddo gan drigolion'.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:

- Ysgrifennu at Lywodraeth y DU i sicrhau bod dull gweithredu ledled y DU yn cael ei wneud i drafod a defnyddio cyllid a godir yn sgil cyfraniadau diwydiant

- Dod ag adroddiad sy'n amlinellu cynllun y Cyngor i weithredu ac ymateb i ofynion Bil Diogelwch Adeiladu Llywodraethau'r DU gan gynnwys cyhoeddi'r holl Orchmynion angenrheidiol, mewn cyswllt â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Eiliwyd y diwygiad yn ffurfiol gan y Cynghorydd Ebrahim.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Taylor i ymateb i'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Ymatebodd y Cynghorydd Taylor i'r materion a godwyd a chadarnhaodd na dderbyniwyd y diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y Diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Thorne ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Ebrahim.

**Canlyniadau'r Bleidlais:**

**O blaid: 39**
Y Cynghorwyr Ahmed, Dilwar Ali, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Ebrahim, Elsmore, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Hinchey, Jacobsen, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Lay, Lent, Lister, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Jackie Parry, Patel, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Huw Thomas, Thorne, Weaver, Wild a Wong.

**Yn erbyn: 25**
Y Cynghorwyr Berman, Cowan, Driscoll, Ford, Gibson, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hudson, Jenkins, Jones-Pritchard, Kelloway, Lancaster, McEvoy, Melbourne, Morgan, Owen, Parkhill, Keith Parry, Philips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Graham Thomas, Walker a Williams

**Yn ymatal:**
Y Cynghorwyr Ashgar Ali, Boyle, Carter, Hopkins, Molik, Naughton, Sandrey, Taylor a Wood.

**Ymddiheuriadau: 1**
Y Cynghorydd Howells

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Thorne i siarad cyn i bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd, fel y'i diwygiwyd gan y Grŵp Llafur, gael ei chynnal.

**Canlyniad y bleidlais:**

**O blaid: 70**
Y Cynghorwyr Ahmed, Ashgar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Keith Jones, Owen Jones, Jones-Pritchard, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a Wood.

**Yn erbyn: 3**
Cynghorwyr Ford, McEvoy a Keith Parry

**Ymddiheuriadau: 1**
Y Cynghorydd Howells

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd fel y'i diwygiwyd.

165 : CWESTIYNAU AR LAFAR

*Cwestiwn - y Cynghorydd Jones-Pritchard*

Credaf, ar ôl darllen y wefan heddiw, fod y cwestiwn eisoes wedi ei ateb, gyda'r ddolen at hynny. Roedd yn gais i'r Cyngor yn dilyn cais yr ydym wedi'i gael gan drigolion am bwynt lle gallent fynd i weld sut y gallent helpu gydag argyfwng Wcráin, ynglŷn â cheiswyr lloches a chymorth arall, felly diolch i'r Arweinydd, sydd eisoes wedi'i wneud.

*Ateb - y Cynghorydd Huw Thomas*

A allaf ategu'r hyn rydw i wedi'i ddweud mewn perthynas â chwestiwn y Cynghorydd Cowan, gan godi'r thema ehangach yng nghwestiwn y Cynghorydd Jones-Pritchard ar ffyrdd eraill o helpu.

Erbyn hyn mae gwefan y Cyngor wedi ei diweddaru ac mae ganddi amryw o wybodaeth am y ffordd orau i helpu. Y canllawiau swyddogol nawr yw annog rhoddion ariannol yn hytrach na nwyddau i sicrhau bod y gefnogaeth gywir yn cyrraedd pobl Wcráin yn gyflym, ac i'r ardaloedd sydd eu hangen fwyaf, a'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy roddion i naill ai'r Pwyllgor Argyfwng Trychinebau Cenedlaethol neu fel arall drwy Apêl Argyfwng Wcráin y Groes Goch Prydain ac mae'r manylion hynny ar y wefan, fel y mae cysylltiadau â Chynllun y Swyddfa Gartref i gofrestru diddordeb gan breswylwyr sy'n gallu cynnig llety ar wefan Cartrefi i Wcráin. Beth fyddwn i'n ei ddweud ymhellach ac er gwybodaeth i'r Siambr, mae'r Aelodau wedi clywed Prif Weinidog Cymru yn siarad am ei awydd i Gymru fod yn uwch-noddwr, yn amlwg, mae manylion yn dal i ddod i'r amlwg ac mae llawer o gystadleuaeth i'w chael gyda'r Swyddfa Gartref ac yn wir gyda Llywodraeth Cymru, er mwyn cefnogi'r rhai sy'n cyrraedd ar frys drwy'r llwybrau sydd bellach yn bodoli ac

efallai y daw i fodolaeth, ac i ddiweddaru'r Siambr, yr wyf wedi nodi, drwy swyddogion, i Lywodraeth Cymru, parodrwydd Cyngor Caerdydd, os yw Cymru am ddod yn uwch-noddwr, i chwarae rôl lawn a'n parodrwydd yn arbennig, i weithredu fel canolfan groeso i ffoaduriaid o Wcráin. Credaf mai dyna'r lleiaf y dylai Caerdydd, fel Dinas noddfa, fod yn ei wneud

*Cwestiwn - Y Cynghorydd Keith Parry*

Pa fesurau y gall y Cyngor eu cymryd i sicrhau nad yw gerddi ffosydd cerrig yn dod yn berygl baglu i bobl â golwg rhannol a defnyddwyr eraill mewn cynlluniau ailgynllunio strydoedd a draeniau fel sydd wedi digwydd yn Heol y Bont-faen, Treganna?

*Ateb - y Cynghorydd Michael*

Dyluniwyd Cynlluniau Draenio Cynaliadwy (SDCau) i safonau Llywodraeth Cymru ac yn unol â Llawlyfr SDCau Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu C753. Y Llawlyfr yw safon y diwydiant derbyniol y mae cynlluniau draenio cynaliadwy ac isadeiledd gwyrdd wedi'u cynllunio ar draws y DU.

Cynhelir ymarferion gwersi a ddysgwyd a pherfformiad ôl-adeiladu ar ôl i gynlluniau gael eu gweithredu, sydd wedyn yn cael eu rhannu ledled y diwydiant a gydag awdurdodau rheoli risg eraill er mwyn sicrhau bod yr arfer gorau yn cael ei gipio a'i hyrwyddo.

Yn ogystal, mae cynlluniau priffyrdd wedi'u cynllunio i'r Llawlyfr Dylunio ar gyfer Safonau Priffyrdd o ran Ffyrdd a Phontydd er mwyn sicrhau bod cyfrif llawn yn cael ei gymryd o holl ddefnyddwyr posibl y briffordd a chynlluniau cysylltiedig, a darperir amgylchedd diogel.

*Cwestiwn Atodol - Y Cynghorydd Parry*

Mae'r gerddi ffosydd cerrig yn Grangetown yn foddhaol gyda physt a ffensys o'u cwmpas ond yn Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yn Nhreganna maen nhw wedi dod yn beryglon baglu, mae pobl yn gyrru neu seiclo i mewn iddyn nhw ac mae'r cynlluniau yma'n mynd i gael eu cyflwyno o gwmpas gweddill y Ddinas a bydd y safonau dylunio yn cael eu cadw atyn nhw.

*Ateb - y Cynghorydd Michael*

Cynhaliwyd cyfarfod yr wythnos diwethaf gyda swyddogion; nid yw’r cynllun wedi’i orffen eto, a phan fydd wedi’i gwblhau byddwn yn gweld potensial llawn y cynllun.

*Cwestiwn - Y Cynghorydd Berman*

Er bod y prosiect i edrych ar fentrau a allai helpu i annog mwy o ddisgyblion Ysgol Bro Edern i deithio i'r ysgol trwy ddulliau gweithredol i'w groesawu, mae'r ffaith bod yr ysgol yn un o ddim ond tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu'r ddinas ac felly bod ganddi ddalgylch mawr o'i gymharu ag ysgolion uwchradd AALl cyfrwng Saesneg y ddinas yn meddwl y bydd llawer o ddisgyblion yn dal i barhau i

gael eu gollwng a'u codi gan eu rhieni. O ystyried y problemau y mae trigolion yn eu hwynebu yn Heol Llanedern a'r strydoedd cyfagos o ran parcio anystyriol a rhwystrol gan rai rhieni, gan gynnwys ar linellau melyn dwbl o amgylch cyffyrdd y ffordd ac ar y gwair ar hyd Heol Llanedern, a all y cyngor edrych ar gynnal rhai camau gorfodi wedi'u targedu a'u hailadrodd (trwy fenter ar y cyd â Heddlu De Cymru o bosibl) i helpu i atal hyn?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Gallaf gadarnhau i'r Cynghorydd fod y Tîm Gorfodi Parcio Sifil wedi trefnu i ymgymryd â rhai patrolau ar y cyd o ran materion parcio sy'n ymwneud ag Ysgol Bro Edern yn ystod yr wythnosau nesaf.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Lister*

Yn ddiweddar sefydlwyd Cyfeillion Gerddi'r Faenor ac maen nhw'n awyddus iawn i weithio gydag eraill i fywiogi, cynnal a defnyddio ein parc Baner Werdd. Yn benodol, maen nhw'n awyddus i weld plannu mwy rheolaidd yn digwydd o gwmpas y Gerddi. A all yr Aelod Cabinet gadarnhau pa gynlluniau sydd gan y Cyngor i blannu mwy o fewn Gerddi'r Faenor dros y misoedd nesaf?

*Ateb - y Cynghorydd Bradbury*

Mae gwaith ar y gweill gyda Cheidwaid y Lle ac fel rhan o Brosiect Pafiliwn Grangetown i blannu 15 o goed a drawsblannwyd yn frodorol yn y gerddi erbyn cau'r tymor plannu, ddiwedd y mis hwn.

Bydd ymarferion plannu pellach yn y parc yn cael eu cynnal ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf a bydd yn cynnwys plannu deunydd planhigion yr haf.

Yn dilyn hyn bydd plannu planhigion a bylbiau gwely'r gwanwyn ym mis Hydref.

Byddai Swyddogion y Parciau yn fwy na pharod i gwrdd â'r Grŵp Cyfeillion newydd i drafod unrhyw syniadau sydd ganddynt ar gyfer Gerddi'r Faenor.

*Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Lister*

Mae Grangetown yn awyddus i fod yn wyrddach, sut mae'r Cyngor yn cefnogi trigolion sydd am weld mwy o wyrddni, yn y parciau ac ar y strydoedd.

*Ateb - y Cynghorydd Bradbury*

Mae'r Cyngor yn hapus i weithio gyda Grwpiau Cyfeillion a Gwirfoddolwyr i gefnogi unrhyw weithgaredd ar draws y Ddinas gan gynnwys Grangetown. Yr hyn sy'n hanfodol i gynllunio unrhyw weithgaredd yw ymgysylltu â Gwasanaeth y Parciau. Y peth gorau y gall trigolion Grangetown ei wneud yw ailethol eu hymgeiswyr Llafur rhagorol ym mis Mai i sicrhau eu bod yn parhau i ymladd y frwydr dda dros faterion amgylcheddol.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Driscoll*

Yn dilyn ymddygiad ymosodol diweddar Rwsia yn erbyn Wcráin, mae llawer o wledydd ar draws y byd gan gynnwys y Deyrnas Unedig wedi rhoi sancsiynau ar waith yn erbyn cyfundrefn Putin. A all yr Arweinydd ddiweddaru aelodau ar ba gamau sydd wedi'u cymryd i adolygu amlygiad y cyngor a neu gysylltiadau â Rwsia, gan gynnwys mewn perthynas â phensiynau a hefyd trefniadau cyflenwi a chontractau, gan gynnwys ein hamddiffyniadau rhwydwaith digidol?

*Ateb - y Cynghorydd Huw Thomas*

O ran adnabod cwmnïau sy'n eiddo i Rwsia neu'n gysylltiedig yn ein cadwyn gyflenwi, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad cychwynnol o'n cyflenwyr Haen 1 - y rhai yr ydym yn eu talu'n uniongyrchol - ac wedi nodi amlygiad cyfyngedig.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Cyngor wedi nodi ei ddefnydd o feddalwedd seiberddiogelwch Kaspersky, a chysylltiadau'r cwmni, sydd wedi'u dogfennu'n gyhoeddus, â Rwsia. Mae hwn yn gwmni seiberddiogelwch byd-eang adnabyddus sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan lawer o sefydliadau a busnesau. Mae'r Cyngor - fel sefydliadau cyhoeddus eraill - yn cymryd rhan mewn deialog weithredol gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ac asiantaethau cenedlaethol perthnasol am ei ddefnydd o Kaspersky a lefel y risg.

Fel rhan o waith parhaus i reoli risg, mae Fframwaith Gwydnwch y Cyngor, dull profedig o reoli wrth gefn, hefyd wedi'i ailsefydlu i asesu a monitro'r risgiau cyflawni sy'n gysylltiedig â'r gwrthdaro.

Yr her, heb wybodaeth bellach gan Lywodraethau'r DU neu Gymru, yw nodi'r cwmnïau hynny sydd wedi'u lleoli yn y DU sydd â chysylltiadau Rwsiaidd cryf, boed hynny drwy berchnogaeth neu'r gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi ei amlygu fel mater gyda Llywodraeth Cymru ac rydym yn disgwyl unrhyw ddiweddariadau oddi wrth Lywodraethau'r DU a Chymru ar faterion sy'n gysylltiedig â masnach.

Bydd aelodau hefyd yn ymwybodol bod Partneriaeth Pensiwn Cymru a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi cyhoeddi datganiad yn ddiweddar am gyfanswm yr amlygiad i fuddsoddiadau Rwsia yma yng Nghymru, sy'n cynnwys y rhai a wnaed gan Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro, sydd yn fach iawn ar lai na 1%.

Maent hefyd, gyda'i gilydd, wedi penderfynu dargyfeirio o unrhyw ddaliadau o'r fath cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl, yn enwedig o ystyried nad yw ymgysylltu â'r cwmnïau hyn yn opsiwn ymarferol.

*Cwestiwn Ategol - y Cynghorydd Driscoll*

Diolch am yr ateb cynhwysfawr, rwy'n sylweddoli bod gan y Cyngor ymrwymiadau cytundebol ac fe fydd unrhyw benderfyniadau a gymerwyd i newid unrhyw beth o ran diogelwch yn cymryd amser. Allwch chi ein diweddaru wrth symud ymlaen?

**Ateb - y Cynghorydd Huw Thomas**

Ie, gallaf.

*Cwestiwn - Y Cynghorydd Sandrey*

Gyda chasglwyr Pentwyn a Llanedern yn dod i ben oherwydd diffyg gwirfoddolwyr sy’n barod gamu ‘mlaen a chymryd drosodd gan aelodau'r pwyllgor sy'n ymddeol, beth mae'r cyngor yn ei wneud i sicrhau nad yw grwpiau eraill yn cwrdd â'r un dynged?

*Ateb - y Cynghorydd Michael*

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Chadwch Gymru'n Daclus i gynnig cefnogaeth uniongyrchol i grwpiau cymunedol "Cadwch yn Daclus" Caerdydd. Mae gennym swyddogion ymroddedig sy'n cyfarfod yn rheolaidd gyda grwpiau o'r fath i drafod materion amrywiol ac i gynnig cefnogaeth ymarferol fel offer casglu sbwriel a hyfforddiant, megis Cymorth Cyntaf, yn rhad ac am ddim.

Rydym hefyd yn teilwra'r cymorth sy'n cael ei roi i ddiwallu anghenion pob grŵp, gan gynnig gwahanol fformatau ar gyfer gwahanol amgylchiadau. Er enghraifft, mae ein cynllun Ymgyrchwyr Sbwriel yn caniatáu i wirfoddolwyr gymryd rhan mewn casglu sbwriel y tu allan i grwpiau cyfansoddedig ac mae ganddi dros 500 o aelodau.

Er bod aelodau pwyllgor ym Mhentwyn yn rhoi'r gorau i'r swydd, rydym yn parhau i gefnogi gwirfoddolwyr yn yr ardal. Mae swyddogion wedi danfon pum cert i drigolion sy'n gysylltiedig â'r grwpiau, ond sydd bellach wedi'u cofrestru fel Ymgyrchwyr Sbwriel, dim ond yr wythnos ddiwethaf. Mae'r gweithgaredd yn yr ardal yn parhau i ffynnu - dim ond mewn fformat gwahanol.

**Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Sandrey**

A fyddech yn fodlon cynnig unrhyw gymorth ychwanegol i geisio cael y grŵp i fynd eto?

*Ateb - y Cynghorydd Michael*

Byddaf yn edrych ymlaen at eich e-bost yn awgrymu'r math o gefnogaeth rydych chi'n meddwl fyddai'n briodol.

*Cwestiwn - Y Cynghorydd Keith Parry*

Er ein bod yn croesawu'r cynlluniau newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Cantonian, a all trigolion fod yn sicr na fydd Rhodfa Doyle, stryd faestrefol fechan, yn dod yn fynediad prysur iawn i'r datblygiad newydd?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Mae gwneud y mwyaf o fynediad i’r ysgol newydd drwy gerdded a beicio fel dewis amgen i gael eich gyrru mewn car yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y datblygiad hwn, ynghyd â darparu mynediad effeithiol ar gyfer trafnidiaeth i ddysgwyr i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

*Cwestiwn - y Cynghorydd De'Ath*

Pleser mawr oedd ymuno â chi yn agoriad diweddar Tŷ George Williams, bloc newydd yr YMCA o 18 o fflatiau ym Mhlasnewydd i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Allech chi gadarnhau y bydd Tŷ George Williams yn cael ei ddefnyddio fel rhan o ddarpariaeth Tŷ yn Gyntaf Cyngor Caerdydd, sydd eisoes yn cadw pobl oddi ar y strydoedd?

**Ateb - y Cynghorydd Thorne**

Mae'r cynllun hwn yn helpu i gyflawni ein hymrwymiad i 'Dim Mynd Nôl' ac mae'n rhan o uchelgais ehangach y Cyngor i gynyddu nifer ac ansawdd y llety hunangynhwysol sydd ar gael i bobl, sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a chysgu ar y stryd.

Yn sail i'n gweledigaeth mae egwyddorion Tai, sy'n cael eu harwain gan Dai a Thŷ yn Gyntaf a'i nod yw cartrefu pobl yn gyflym mewn llety sefydlog a phriodol, gan ddod â'u digartrefedd i ben cyn gynted â phosibl.

Darperir cymorth cofleidiol mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i sicrhau bod eu holl anghenion penodol yn cael sylw. Bydd hyn yn atal dychwelyd at ddigartrefedd.

Mae'r model hwn yn ehangiad ar ein gwasanaeth Tŷ yn Gyntaf presennol, sydd wedi cefnogi'n drawiadol 90% o gleientiaid i dorri'r cylch o ddigartrefedd, gydag 87% o gleientiaid yn nodi gwelliant cyffredinol i'w hiechyd a'u lles.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ehangu a chynyddu'r llety sydd ar gael, wrth sicrhau ar yr un pryd fod llwybrau addas yn cael eu nodi er mwyn helpu i gadw pobl oddi ar y stryd.

*Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd De'Ath*

Mae Tŷ George Williams yn adeiladwaith carbon niwtral, beth mae'r Cyngor yn ei wneud i sicrhau bod ei dai Cyngor newydd yn garbon niwtral?

**Ateb - y Cynghorydd Thorne**

Mae pob un wedi ei adeiladu i'r safon honno neu'n uwch. Mae yna Safon Adeiladu Caerdydd newydd yr wyf yn hapus i'w rannu sy'n dangos ein bod yn gobeithio bod y tu hwnt i Garbon Niwtral.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Robson*

A oes gan yr Aelod Cabinet unrhyw gynlluniau i gynyddu nifer y ceir gorfodaeth y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael â materion parcio ger ysgolion?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor 4 cerbyd camerâu gorfodi sy'n patrolio ac yn gorfodi nifer o gyfyngiadau parcio gwahanol ledled y ddinas. Fe'u defnyddir hefyd i batrolio a gorfodi materion parcio o amgylch yr ysgol.

Rydym wedi gosod 27 o gamerâu gorfodi parcio sefydlog mewn lleoliadau ysgol ar draws y ddinas yn ystod y 12 mis diwethaf.

*Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Robson*

Bu ysgolion yn Rhiwbeina, gan gynnwys Ysgol Gynradd Llanisien Fach, wedi cael eu cynnwys yn y cyfryngau yn ddiweddar lle mae trigolion wedi bod yn cwyno am rieni'n bod yn anystyriol drwy rwystro tramwyfeydd a pharcio'n wael o amgylch yr ysgol ar adegau gollwng a chasglu. A wnewch chi gwrdd â mi ar y safle i weld beth allwn ni ei wneud i wella hyn gan ei fod wedi bod yn digwydd ers peth amser.

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Mae swyddogion wrthi'n datblygu strategaeth i flaenoriaethu ac ehangu nifer y camerâu sefydlog sy'n cael eu defnyddio y tu allan i ysgolion a nifer y cynlluniau Stryd Ysgol a weithredwyd i geisio delio â phroblemau parcio rhieni y tu allan i ysgolion. Dwi ddim yn credu y byddai'n briodol i mi ymweld â'r safle ar ôl yfory, ond efallai ar ôl yr etholiadau.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Carter*

Pa gymorth ymarferol gall y cyngor ei roi i fusnesau lleol i ymgymryd â masnachfraint Swyddfa Bost Pentwyn?

*Ateb - y Cynghorydd Goodway*

Rwy'n cyfeirio'r Cynghorydd at yr ateb a roddwyd i'ch cydweithiwr yn y ward ynglŷn â'r mater hwn yn y Cyngor ym mis Tachwedd y llynedd ac yn cadarnhau bod sefyllfa'r Cyngor yn parhau heb newid.

*Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Carter*

A wnewch chi roi enghreifftiau ymarferol o ba gyngor rydych yn ei roi. Ers y cwestiwn diwethaf mae Swyddfa'r Post wedi cau erbyn hyn, does neb wedi ymgymryd â'r fasnachfraint, ar y pryd fe wnaethoch chi amlinellu rhai cyfleoedd posib, hyd y gwelwn ni does dim o'r rhain wedi digwydd. Wrth feddwl ymlaen at y misoedd nesaf, pa gamau ymarferol fydd y Cyngor yn eu cymryd i gynorthwyo busnesau lleol.

*Ateb - y Cynghorydd Goodway*

Nid yw'r Cyngor yn gweithredu Swyddfeydd Post ac nid yw'r Cyngor chwaith yn Asiantaeth Tai ar ran Masnachfraint y Swyddfa Bost. Rydym wedi dweud fy mod yn hapus i weithio gyda swyddogion i helpu unrhyw bartïon sydd â diddordeb sy'n ceisio ei gymryd drosodd. Os ydych chi ac aelodau eraill o'r ward yn gwybod am unrhyw fusnesau lleol sydd â diddordeb gadewch i mi wybod a byddaf yn cael swyddogion i fynd ati i ymgysylltu â nhw i archwilio sut y gallant gyflawni eu huchelgais, ond ni

allwn hysbysebu Masnachfraint Swyddfa'r Post gwag, mae hynny y tu hwnt i bwerau'r Cyngor.

*Cwestiwn - Y Cynghorydd Keith Parry*

Yn ddiweddar mae datblygiadau mawr yn Ffordd Waungron a Chanolfan Gymunedol Treganna wedi'u cynnig heb fawr ddim darpariaeth parcio. Mae hyn wedi achosi llawer o bryder i drigolion y bydd eu strydoedd yn dod yn llawn ceir wedi'u dadleoli. A yw'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu defnyddio'n gywir neu a oes angen ei adolygu?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol yn cyflwyno uchafswm safon parcio ar gyfer datblygu cymwys. Cafodd y ddau gais y cyfeirir atynt yn y cwestiwn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio lle trafodwyd y materion hyn, ynghyd ag ystyriaethau cynllunio materol eraill, cyn i'r Pwyllgor bleidleisio ar y ceisiadau.

*Cwestiwn Atodol - Y Cynghorydd Keith Parry*

Mae'r CCA yn gosod uchafswm ond dim isafswm, weithiau mae'r gwaith cynllunio wedi'i gymeradwyo yn dadleoli ceir sy'n achosi straen i drigolion lleol a dydw i ddim yn credu ei fod yn cael ei gymhwyso'n gywir.

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Rydym yn ceisio adeiladu dinas well a dyfodol gwell, roeddech chi ac eraill yn pryderu y gallai fod mwy o symudiadau ceir i mewn ac allan o'r datblygiadau hyn. Ni allwch ei gael y ddwy ffordd, rydym yn ceisio annog pobl i beidio â defnyddio ceir yn enwedig pan fydd opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus dda.

*Cwestiwn - Y Cynghorydd Gordon*

Yn ein Strategaeth Un Blaned, mae hyrwyddo teithio llesol yn elfen allweddol. Pa mor bell ydych chi'n meddwl ein bod yn gweld newid i ddulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth - cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus?

*Ateb - y Cynghorydd Huw Thomas*

Yn ôl y data rhaniad modal diweddaraf (o gyfuniad o ffynonellau arolwg at holl ddibenion teithio ddechrau Chwefror 2022) roedd 54% o deithiau yng Nghaerdydd yn cael eu gwneud gan ddulliau cynaliadwy, h.y. cynnydd o'r 50% yn 2020 cyn pandemig Covid-19.

O'r 54%, roedd tua 27% yn cerdded (newid o +8%); mae 12% yn beicio (newid o +2%); ac roedd 11% yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus (newid o -6%). Does dim dwywaith mai'r ffactorau yn ymwneud â'r pandemig sy'n gyfrifol am y gostyngiad yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

Ar gyfer 2021 yn ei chyfanrwydd, roedd cyfran y bobl a oedd yn teithio'n gynaliadwy'r un fath â'i gymharu â chyn Covid h.y. 50:50. Fodd bynnag, cynyddodd nifer y bobl sy'n cerdded a beicio gan tua 10% o'i gymharu â'r cyfnod cyn Covid, tra bod y defnydd cyffredinol o drafnidiaeth gyhoeddus tua hanner hynny yn 2019. Yn ystod y pandemig roedd pobl yn cael gwybod i beidio â theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, felly mae'n rhaid i ni nawr gyflwyno ymgyrch frys i annog pobl yn ôl i fysiau a threnau.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Cowan*

Pa gyngor mae swyddogion yn ei roi ynglŷn â'r posibilrwydd o gyflwyno CAGC yng Ngogledd Caerdydd dros y 5 mlynedd nesaf?

*Ateb - y Cynghorydd Michael*

Wrth i mi gadarnhau wrth ateb y Cwestiwn Cyhoeddus yn y Cyngor ym mis Ionawr, ac wedi gwneud ar achlysuron blaenorol, cynhaliwyd adolygiad sylfaenol o safleoedd posib y canolfannau ailgylchu yn flaenorol, ond ni nodwyd lleoliadau addas yng ngogledd Caerdydd ar adeg yr adolygiad.

Mae swyddogion yn parhau i archwilio opsiynau posib o'r safle wrth iddyn nhw ddod ar gael. Yn amlwg, mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar y cwestiwn 'ym mhle', ond hefyd mae angen ystyried 'pryd' y gallai fod angen unrhyw ganolfannau ailgylchu newydd.

*Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Cowan*

A ydych chi'n bersonol argyhoeddedig bod angen CAGC yng Ngogledd Caerdydd neu a ydych yn meddwl bod digon o gapasiti yn y cyfleusterau presennol?

*Ateb - y Cynghorydd Michael*

Nid yw fy marn bersonol yn cyfrif pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud, mae pob proses yn cael ei dilyn, yn gyntaf mae angen nodi safle ac rwy'n siŵr mai chi fydd y cyntaf i anfon argymhelliad i mi o unrhyw safleoedd nad ydym wedi edrych arnynt.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Taylor*

A fydd y cyngor ar gael i'r cyhoedd y data o fonitorau ansawdd aer amser real y ddinas?

*Ateb - y Cynghorydd Michael*

Mae'r wybodaeth ar gael. Mae data tair gorsaf fonitro ansawdd aer sy'n gysylltiedig â'r Rhwydwaith Trefol a Gwledig Awtomatig cenedlaethol eisoes ar gael ar wefan Ansawdd Aer Cymru.

*Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Taylor*

Ym mis Medi 2021, mewn ymateb i ddyfyniad o erthygl yn y wasg, ymrwymodd y Cyngor i gyhoeddi'r data, yn benodol mewn perthynas â'r rhai yr ystyrir eu bod yn ofynnol fel rhan o ganiatâd cynllunio ar gyfer Canolfan Ganser Felindre. Dydy hyn ddim wedi digwydd felly pam lai, ac a fyddwch yn sicrhau ei fod yn digwydd yn y dyfodol?

*Ateb - y Cynghorydd Michael*

Byddaf yn cymryd eich cais i'r Swyddogion ac yn ateb cyn gynted ag y gallaf.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Lay*

Ers i gyfyngiadau o'r pandemig gael eu codi, rwyf wedi derbyn nifer o ymholiadau gan drigolion ynglŷn â gwaith atgyweirio sy'n weddill. A allwch chi fy nghynghori beth yw'r ôl-groniad o waith atgyweirio os gwelwch yn dda?

**Ateb - y Cynghorydd Thorne**

Ymddiheuriadau i'r trigolion. Oherwydd cyfyngiadau Covid, ni allai gweithredwyr gael mynediad i eiddo i wneud gwaith atgyweirio rheolaidd am 29 wythnos. Mae hyn, ynghyd â salwch sy'n gysylltiedig â Covid a chysgodi gweithredwyr a thenantiaid, wedi arwain at ôl-groniad mewn atgyweiriadau arferol, sydd ar hyn o bryd yn 3,681 achos.

Rwy'n falch o ddweud, er bod llawer o waith i'w wneud o hyd i fynd yn ôl at berfformiad cyn y pandemig o 94% o'r gwaith a gwblhawyd ar amser, mae'r ôl-groniad bellach yn lleihau.

Fis diwethaf, cafodd 57% o waith eu cwblhau ar amser - roedd hyn yn gynnydd o 10% ar y mis blaenorol a, bob wythnos, gwelwn ostyngiad o tua 300 o ddarnau o waith atgyweirio arferol hwyr.

Er mwyn gwneud cynnydd cyn gynted â phosibl, rydym wedi dyrannu ein contractwyr allanol dros 1,600 o ddarnau gwaith ac rydym yn rhagweld y bydd y rhain yn cael eu cwblhau dros y pum wythnos nesaf. Bydd Tasglu Atgyweirio penodol, sy'n cwrdd yn wythnosol, yn sicrhau bod yr ôl-groniad yn parhau i leihau.

Er mwyn gwella'r gwasanaeth i'n tenantiaid, mae cynlluniau pellach ar y gweill. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiad llawn o'r gwasanaeth, cyflogi pobl cynnal a chadw newydd i wneud gwaith atgyweirio sylfaenol a chyflwyno Academi Atgyweirio newydd i adeiladu ein gweithlu yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i'n tenantiaid am eu hamynedd wrth i ni barhau i weithio'n galed i ddileu'r oedi wrth gwblhau'r gwaith atgyweirio hyn.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Cowan*

A fydd yr holl ysgolion isod yn gweini prydau ysgol poeth ar ôl hanner tymor?

Y tro diwethaf roedd yr ysgolion hyn yn cynnig prydau ysgol poeth i ddisgyblion:

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Birchgrove | Mawrth 2020<br>(Prydau poeth yn cael eu gweini yn ystod<br>Bwyd a Hwyl Haf 2021) |
| Ysgol Gynradd Bryn Deri | Rhagfyr 2020 |
| Ysgol Gynradd Lansdowne | Mawrth 2020 |
| Ysgol Gynradd Llanedern | Mawrth 2020 |
| Ysgol Gynradd Marlborough | Mawrth 2020 |
| Ysgol Gynradd Meadowbank | Mawrth 2020 |
| Ysgol Gynradd Rhiwbeina | Mawrth 2020 |
| Ysgol Gynradd Parc y Rhath | Mawrth 2020 |
| Ysgol Uwchradd Teilo Sant | Mawrth 2020 |

*Ateb - y Cynghorydd Merry*

Fel y gwnes i gadarnhau wrthych yn y Cyngor ym mis Ionawr, mae'r Gwasanaeth Prydau Ysgol yng Nghaerdydd yn parhau i wynebu heriau parhaus oherwydd y pandemig o ran recriwtio ac absenoldebau staffio yn ei weithlu ei hun, yn ogystal â'r effaith barhaus ar gyflenwyr a chontractwyr.

Gallaf gadarnhau fod darpariaeth bwyd poeth bellach yn Ysgolion Cynradd Bryn Deri a Meadowbank, a bydd hyn hefyd yn ailgychwyn yn Ysgol Gynradd Llanedern o 21 Mawrth. Mae bwyd oer hefyd yn cael ei ddarparu yn Ysgol Gynradd Marlborough.

Yn y pum ysgol arall rydych wedi'u rhestru, does dim darpariaeth arlwyo ar hyn o bryd ac mae talebau Prydau Ysgol am Ddim yn cael eu darparu. Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw yn Ysgolion Ysgol Gynradd Rhiwbeina a Pharc y Rhath, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn. Mae trafodaethau'n parhau gyda Phenaethiaid yn y ddwy ysgol sy'n weddill ynghylch dychwelyd i'r ddarpariaeth prydau poeth cyn gynted â phosib.

*Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Cowan*

Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu polisi ar gyfer prydau Ysgol Am Ddim Cyffredinol, fydd yn cymryd nifer o flynyddoedd er mwyn dwyn ffrwyth. O ran ariannu'r agweddau yn y gegin, gan fod ceginau bach iawn gan lawer o ysgolion ac ni allai gynhyrchu nifer y prydau sydd eu hangen i fwydo'r holl blant, o'ch trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, pryd fydd yr ysgolion cyntaf yn dechrau'r cynllun a pha mor hir y bydd yn ei gymryd i'r prosiect cyfan gael ei gyflwyno?

*Ateb - y Cynghorydd Merry*

Fe fydd yn cymryd nifer o flynyddoedd. Bydd rhai ysgolion angen cwblhau gwaith cegin a gall fod angen i ysgolion wneud addasiadau i drefniadau amser cinio oherwydd capasiti neuadd ysgol/cinio, bydd hyn yn unigol i bob ysgol. Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno fesul cam a byddaf yn rhoi gwybod i'r Aelodau pan fydd gen i fwy o wybodaeth.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Naughton*

Ar ôl torri ffenestri gwydr arall i gysgodfan bysiau yn ddiweddar yn ardal Llanedern, a fyddai'n bosib i'r cyngor ystyried defnyddio deunyddiau mwy gwydn fel rhai newydd yn lle parhau i roi gwydr yn eu lle?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Mewn nifer o safleoedd lle mae difrod gormodol i lochesi bysiau yn digwydd, gall y Cyngor drefnu bod paneli polycarbonad yn cael eu gosod yn lle gwydr.

Fodd bynnag, mesur dros dro yw hwn fel arfer gan y bydd polycarbonad yn diraddio ac yn cymylu pan fydd yn agored i'r tywydd ac, felly, yn dod yn annefnyddiadwy o ran gallu teithwyr sy'n aros i weld bysiau'n agosáu, nad yw'n sefyllfa ddelfrydol.

Mae gan ddau o'r pum lloches ar Rodfa Llanedern)baneli polycarbonad eisoes wedi'u gosod.

*Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Naughton*

Rwy'n gwerthfawrogi nad yw'r deunydd yn ddelfrydol, rwyf wedi adrodd nifer o ddigwyddiadau dros y blynyddoedd, ac mae rhai wedi'u disodli, ond mae'r rhai gwydr yn dal i gael eu torri'n rheolaidd, gan rwystro preswylwyr ac achosi problemau diogelwch. A allai hyn fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn y flwyddyn ariannol nesaf, i ddisodli'r gwydr?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Nodwyd.

*Cwestiwn - Y Cynghorydd Dilwar Ali*

Drwy gydol y pandemig, mae llawer o'n tenantiaid wedi cael trafferthion ariannol. A allwch chi fy nghynghori beth mae'r cyngor wedi bod yn ei wneud i helpu a beth yw lefel yr ôl-ddyledion ar hyn o bryd os gwelwch yn dda?

**Ateb - y Cynghorydd Thorne**

Hyd yn oed gyda'r effeithiau negyddol ar gyllid ein tenantiaid dros y 12 mis diwethaf, rwy'n falch iawn o ddweud bod ein dyledion rhent wedi gostwng 11% dros y 12 mis diwethaf. Y canlyniad chwarter 3 diweddaraf ar gyfer ôl-ddyledion fel canran o gyfanswm y rhent casgladwy oedd 3.19%.

Rwyf hyd yn oed yn fwy balch o gyhoeddi nad oes unrhyw denantiaid cyngor wedi cael eu troi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent ers bron i ddwy flynedd.

Mae hyn yn dyst i'r ffordd y mae ein swyddogion cyllid yn ymgysylltu'n rhagweithiol â thenantiaid, ac mae ganddynt ffocws dwys ar atal. Mae hyn yn sicrhau bod materion yn cael eu trin mewn ffordd gefnogol drwy geisio dod o hyd i atebion cyn iddynt waethygu a chyn i ôl-ddyledion ddod yn annealladwy.

Mae ein llwybr ôl-ddyledion rhent llwyddiannus hefyd wedi gallu cefnogi 509 o denantiaid cyngor a oedd ag ôl-ddyledion oherwydd effaith y pandemig.

Mae ein Tîm Cyswllt Lles ymroddedig hefyd wrth law i roi cyngor pwrpasol i'n tenantiaid yn eu cartrefi eu hunain, ac i gynnig help gyda dyled, cyllidebu, gwneud cais am fudd-daliadau, grantiau a gostyngiadau a thalebau bwyd a thanwydd.

Mae'r dull cefnogol hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ein tenantiaid ac yn helpu i'w cadw yn eu cartrefi eu hunain.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Owen*

A fydd yr Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth yn cytuno i osod mwy o groesfannau i gerddwyr - un yn ardal siopa Heol y Deri ac un arall ar Heol Pant-mawr, Rhiwbeina, i helpu trigolion groesi wrth ddal y bws?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Mae'r lleoliadau yma wedi cael eu hadolygu gan swyddogion yn y gorffennol. Ni ystyriwyd bod y problemau'n ddigon difrifol i warantu'r lleoliadau hyn yn cael eu gwneud yn flaenoriaeth ar hyn o bryd.

*Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Owen*

Cyn y pandemig, fe wnaethom gyflwyno cais i gronfa adfywio'r Cyngor a wrthodwyd yn anffodus. Ond awgrymodd Swyddog y Cyngor ei hun a wnaeth gwrdd â ni ar y safle i drafod ein cais, bod angen croesfan i gerddwyr yng nghanol Heol y Deri, wedi iddo weld trigolyn gyda ffrâm gerdded yn brwydro i groesi yn y pentref. Mae gennym ddemograffeg hynaf trigolion ar draws Caerdydd yn Rhiwbeina a dwi'n teimlo bod gan y Cyngor ddyletswydd gofal iddyn nhw sydd ddim yn cael ei gwrdd ar hyn o bryd. Hoffwn ofyn i chi eto i wneud y peth iawn, ac ailystyried hyn os gwelwch yn dda.

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Mae angen i ni fod yn deg, waeth pa mor huawdl yw ein hareithiau yn y siambr. Gallwch siarad â Swyddogion eto wrth gwrs ond rwy'n credu bod yn rhaid i'n ffocws fod ar faterion atal, fel 20 mya. Ni allwn barhau i osod mesurau diogelwch o amgylch y Ddinas, byddai hyn yn costio miliynau, mae angen i ni leihau cyflymder a gwella diogelwch, ond mae croeso i chi siarad â Swyddogion eto.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Boyle*

Yn 2017, yn dilyn cyfres o drafodaethau ar y cyd rhwng swyddogion a chynghorwyr Pen-y-lan ynghylch cael gwared ar y mannau culhau ar Heol Tŷ Draw, ysgrifennwyd atom fel a ganlyn:

*Rydym yn edrych i gael yr arian A106 "wedi'i dynnu i lawr" yn fuan ar gyfer y ddau gynllun hyn [yr oedd prosiect Tŷ Draw yn un ohonynt] a byddwn yn anelu at ymgynghori'n ffurfiol ar y cynlluniau hyn yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.*

Cafodd y cynllun ei ohirio ar y sail ei fod yn gwneud mwy o synnwyr i wneud y gwaith fel rhan o gynigion i wella seilwaith beicio o amgylch Cae Rec y Rhath. Er hynny, cawsom sicrwydd bod y Cyngor, o leiaf, wedi ymrwymo i gael gwared ar y mannau culhau. Mae'r ymgynghoriad presennol am lwybr beicio Cae Rec y Rhath nawr yn dweud hyn:

*Fel rhan o ddatblygiad y cynllun, efallai y byddwn yn ystyried uwchraddio'r rhwystrau culhau'r ffordd ar Ffordd Tŷ Draw i gyfleusterau croesi dyrchafedig (clustogau) sy'n cadw cyflymderau cerbydau yn isel, ond sy'n galluogi'r traffig i lifo'r ddwy ffordd.*

Pam fod y Cyngor wedi camu'n ôl o'i ymrwymiad blaenorol?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Yn anffodus, hyd yma, nid oes cyllid wedi bod ar gael i gael gwared ar y mannau culhau â blaenoriaeth fel prosiect ynysig. Felly, mae hyn nawr yn cael ei ystyried fel rhan o brosiect Llwybr Beicio Parc y Rhath. Mae cyllideb fechan ar gyfer mannau culhau ac mae'r ffocws ar lwybrau bysiau prysur.

*Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Boyle*

Roedd hyn yn 2017, yn 2019 ysgrifennodd y Cyfarwyddwr ataf pan holais i am hyn, a dywedodd ei fod wedi ymchwilio i'r materion a'i fod yn edrych yn gadarnhaol, gyda phrosiect cyffredinol o waith ar gyfer mannau culhau ac mae'n gwneud y pwynt am lwybrau bysiau, fodd bynnag, yn yr achos hwn rydym yn ceisio cael gwared ar y mannau culhau o Gynllun Parc y Rhath a dylai hyn fod yn y rownd ariannu nesaf. Dwi'n cymryd y pwynt ond yn flaenorol, o ran cynllun ariannu Coridor y Rhath, dywedwyd wrthym mai arian A106 oedd e, a gwnaethom lawer o waith manwl gyda swyddogion i adnabod yr arian hwnnw. Allwch chi weld pa mor rhwystredig ac anodd yw hi i Aelodau lleol pan fydd Swyddogion yn dweud wrthym yn rheolaidd, yn 2017 a 2019, pan wnaethom ein diwydrwydd dyladwy, a mynd at swyddogion a chael gwybod bod y cynllun yn mynd i gael ei ddatblygu, ac yna nid yw hynny'n digwydd, a'r anawsterau mae Cynghorwyr lleol yn profi o ran trosglwyddo'r newyddion i'r Gymuned?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Gallaf weld hynny, ond nid wyf yn meddwl y dywedwyd wrthych yn bendant, o'r geiriau yr ydych wedi'u defnyddio. Rwy'n siŵr y gallwch chi fod yn berswadiol iawn gyda Chyfarwyddwyr a byddent am eich cadw'n hapus lle bynnag y bo modd, ond fel y mae, mae cyllid yn gyfyngedig, mae cynlluniau eraill yn y Ddinas ac yn eich ardal chi, lle daethpwyd o hyd i adnoddau ychwanegol er mwyn gwella croesfannau yn Rhodfa Colchester yn sylweddol, a byddai hynny wedi bod yn flaenoriaeth cyn cael gwared ar fannau culhau ffyrdd. Ydy, mae'n anodd ond mae adnoddau'n brin, rwy'n deall eich rhwystredigaeth os ydych chi wedi cael eich arwain i gredu bod rhywbeth yn mynd i ddigwydd ac nad yw'n digwydd.

*Cwestiwn - Y Cynghorydd Sangani*

A allai'r Aelod Cabinet ein diweddaru ar y pwysau presennol yn y sector gofal cymdeithasol?

*Ateb - Y Cynghorydd Elsmore*

Bydd aelodau'n ymwybodol o'r pwysau sylweddol mewn gofal cymdeithasol sy'n cael eu profi ledled y DU.

Rwy’n falch o ddweud, er bod heriau’r galw cynyddol yn parhau’n ddifrifol, y bu gwelliannau o ran argaeledd gofal cartref yng Nghaerdydd. Mae nifer y rhai sy'n aros am becyn gofal wedi gostwng gan 84 ers mis Ionawr, gyda 40 pecyn gofal allan i'r farchnad ar hyn o bryd.

Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud gyda chydweithwyr iechyd i ddarparu ystod o ymyriadau i wella amseroedd aros asesu a gofal.

Yn eu plith mae Academi Gofalwyr Caerdydd, sy'n cefnogi recriwtio gweithwyr gofal newydd.

*Cwestiwn Atodol - Y Cynghorydd Sangani*

A allwch amlinellu pa gymhellion sydd ar waith i gefnogi recriwtio gweithwyr gofal newydd?

*Ateb - Y Cynghorydd Elsmore*

Nid yw Gofal Cymdeithasol wedi’i werthfawrogi’n ddigonol, mae’r cyflog byw gwirioneddol wedi’i gyflwyno o 1 Ebrill, fel Cyngor rydym eisoes yn talu hwn. Rydym wedi cofrestru 84 o unigolion, gyda 21 yn sicrhau swyddi yn y sector gofal a 7 arall sy'n barod am swyddi ac yn aros am waith.

Mae chwe Chontract Partneriaeth Gofal newydd arloesol wedi'u dyfarnu am ddarparu cyfanswm o 1200 awr o ofal gartref bob wythnos. Mae'r rhain yn cynnwys y gofyniad ychwanegol i weithio gyda'r Cyngor i gefnogi staff newydd i'r sector.

Mae gwasanaeth a reolir hefyd wedi'i gomisiynu i wella cyflymder asesu.

Rydym yn parhau i weithio ar y cyd â'n partneriaid i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r heriau cenedlaethol hyn a nodi ymatebion effeithiol i'r pwysau hyn.

Rydym hefyd yn cynnig gwersi gyrru, gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a pharu swyddi.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Hudson*

A all y cyngor ystyried cynnig trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i ganol y ddinas ar benwythnosau i roi hwb i'r sector manwerthu a lletygarwch?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Mae'r Cyngor yn ystyried nifer o opsiynau i annog mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn y ddinas, a gallai mentrau prisiau fod yn rhan o'r ymateb.

*Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Hudson*

Os nad yw'n bosib pa ffyrdd eraill fel Cyngor allwn ni gefnogi'r sector hwn?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Byddai'n costio miliynau o bunnoedd a'r cwestiwn yw sut mae talu amdano. Doeddech chi ddim yn hapus gyda'r cynnydd o 48c y mis yn Nhreth y Cyngor. Mae gennym hyder yng Nghanol y Ddinas, mae wedi gweld mwy o ymwelwyr. Fe wnaethon ni gynnig y pris bws £1 cyn y Nadolig a hoffem wneud hyn eto.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Owen-Jones*

A allai'r Aelod Cabinet roi diweddariad ar unrhyw gynlluniau i wella'r systemau teledu cylch cyfyng ar Stryd Clifton?

**Ateb - y Cynghorydd Thorne**

Ym mis Awst 2021, sefydlodd y Tîm Diogelwch Cymunedol Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ganolbwyntio ar y materion cymhleth sy'n cael eu cydnabod gan bartneriaid ac aelodau o'r cyhoedd yn Stryd Clifton. Mae'r grŵp wedi nodi themâu allweddol i ganolbwyntio arnynt ac wedi mynd ati i weithredu atebion i'r materion cymhleth hyn.

Un datblygiad sylweddol i fynd i'r afael â'r materion yw uwchraddio'r tri chamera TCC sy'n bodoli yno. Bydd yr uwchraddio hwn yn darparu ansawdd uwch o ddelwedd a chanfod ymddygiadau diangen yn well, megis loetran, cardota, delio cyffuriau, ac ymddygiadau gwrthgymdeithasol.

Bydd y camerâu newydd hyn wedi'u gosod erbyn 31 Mawrth 2022. Byddwn hefyd yn gosod arwyddion yn y gofod hwn i hysbysu'r cyhoedd am y ddarpariaeth well hon.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Cowan*

A fydd y Cyngor yn cytuno i ganiatáu i Ymatebwyr Cyntaf (sy'n ymateb fel y gwasanaethau brys) ddefnyddio lonydd bws Caerdydd pan fyddant ar ddyletswyddau achub bywyd brys, os rhoddir rhifau cofrestru’r cerbyd o flaen llaw?

*Ateb* - y *Cynghorydd Wild*

Byddwn yn eich cyfeirio at yr ateb a ddarparwyd gennyf wrth ateb y cwestiwn hwn yn ôl ym mis Ionawr pan gafodd ei ystyried fel Cwestiwn Ysgrifenedig.

*Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Cowan*

Dim ond llond llaw o bobl yw'r rhain, maen nhw wedi gofyn am yr ailystyried hwn, a fyddwch chi'n myfyrio arno os gwelwch yn dda?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Rwy'n rhannu eich gwerthfawrogiad o'r bobl hyn wrth iddyn nhw gefnogi'r gwasanaethau brys. Gan nad ydynt yn defnyddio goleuadau glas does dim hawl ganddynt i ddefnyddio'r lonydd bysiau yng Nghaerdydd ond pe bai unrhyw ymatebwr sy'n ymateb i alwad 999 brys yn cael tâl cosb, rydym yn glir iawn y gallant apelio a deallaf y cânt eu rhyddhau o'r ddirwy honno.

*Cwestiwn - Y Cynghorydd Mackie*

A all yr Aelod Cabinet ein diweddaru ar hynt y Briffordd Feicio ar Deras Cathays a'r newidiadau parcio arfaethedig cysylltiedig yn yr ardal honno?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Mae'r llwybr beicio ar Deras Cathays bellach yn datblygu ar y safle a gallwch weld bod rhai rhannau bron â'u cwblhau. Y nod yw cwblhau'r cyfan (neu'r mwyafrif llethol) o adran Teras Cathays erbyn mis Mai 2022. Dros y chwe wythnos nesaf, rydyn ni hefyd yn gobeithio dechrau peth o'r gwaith plannu. Bydd y parth parcio yn cael ei osod ar y stryd a bydd yn dechrau yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd gohebiaeth i drigolion yn cael eu danfon yn ystod y pythefnos nesaf.

*Cwestiwn - y Cynghorydd Ahmed*

Mae pob un ohonom yn pryderu am effaith yr argyfwng costau byw, yn enwedig gyda phenderfyniad y Llywodraeth Dorïaidd i fwrw ymlaen â'r cynnydd mewn Yswiriant Gwladol, a'i gwrthodiad i helpu gyda chostau tanwydd. Tybed a yw Gwasanaeth Cyngor Ariannol y Cyngor wedi gweld cynnydd yn y galw am ei wasanaeth, a pha gymorth gall gael ei gynnig?

**Ateb - y Cynghorydd Thorne**

Mae'r Tîm Cyngor Arian yn darparu cymorth cyllidebu, cyngor ar ddyledion, a gall gefnogi preswylwyr i wneud cais am grantiau, budd-daliadau a gostyngiadau, yn ogystal â thaliadau brys, talebau banciau bwyd a thanwydd.

Mae bron i 64,000 o drigolion wedi cael eu cefnogi ac wedi derbyn cyngor hyd yma eleni, gyda'r tîm yn helpu i nodi bron i £15.5 miliwn mewn budd-daliadau nas hawliwyd o'r blaen ac ychydig dros £1 miliwn mewn taliadau untro neu ostyngiadau.

Gyda'r cynnydd costau byw, nid yw'n syndod bod ein Tîm Cyngor Ariannol wedi gweld cynnydd sydyn yn y galw, ac rydym eisoes wedi gweld cynnydd o 4,414 o bobl sydd angen help, o'i gymharu â'r adeg hon y llynedd.

Gyda'r cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor wedi'i gytuno ar gyfer y flwyddyn nesaf, bydd y tîm yn gallu ehangu nifer y lleoliadau y mae'n gweithredu ohonynt, gan ganiatáu i fwy o breswylwyr gael mynediad at gymorth mewn Hybiau lleol, banciau

bwyd, llety â chymorth, ar-lein, neu drwy ein Llinell Gyngor. Ar draws ein Hybiau, bydd Hyrwyddwyr Tlodi Tanwydd pwrpasol newydd hefyd yn arwain wrth ddarparu cyngor cyfredol i'r rhai mewn trafferthion gyda'u biliau cyfleustodau.

Mae'r tîm hefyd yn defnyddio Cronfa Argyfwng Dewisol 'Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd', sy'n helpu'r rhai sy'n profi caledi difrifol. Rwy'n falch bod cynlluniau ar y gweill i weithio gyda busnesau lleol yn y dyfodol i gynyddu'r gronfa hon a pharhau i gefnogi ein trigolion sydd mwyaf agored i niwed.

*Cwestiwn Atodol - Y Cynghorydd Ahmed*

Oes unrhyw beth pellach y gall y Cyngor ei wneud i helpu'r bobl anffodus a bregus hyn yn ystod y cyfnod anodd hwn?

**Ateb - y Cynghorydd Thorne**

Rydyn ni'n gwneud cymaint ag y gallwn ni. Mae swyddogion bob amser yn chwilio am ffyrdd pellach o helpu. Byddwn yn annog unrhyw un ar y Cyngor i gyflwyno unrhyw awgrymiadau a byddem yn fwy na bodlon edrych arnynt.

***Drwy gydol y Cwestiynau ac Atebion, roedd yr Aelodau'n dymuno cofnodi eu diolch a'u teyrngedau i'r Arglwydd Faer sy'n gadael a'r holl Gynghorwyr nad ydynt yn sefyll i gael eu hail-ethol. Diolchwyd iddynt am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i drigolion Caerdydd a dymunwyd yn dda i'r dyfodol.***

166 : MATERION BRYS

Dim

167 : RHAGLEN O GYFARFODYDD

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo rhaglen cyfarfodydd llawn y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Mai 2022 ac Awst 2022, a

Nodi rhaglen dros dro'r Cabinet a chyfarfodydd Pwyllgor ar gyfer y cyfnod rhwng Mai 2022 ac Awst 2022.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor

(1) cymeradwyo'r rhaglen dros dro o ddyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgor ar gyfer mis Mai 2022 i fis Awst 2022.

(2) Nodi dyddiadau dros dro cyfarfodydd y Cabinet yn ystod y cyfnod Mai 2022 i Awst 2022 fel y dangosir yn **Atodiad A;** a

(3) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol mewn ymgynghoriad â Chadeiryddion Pwyllgor i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r rhaglen dros dro o gyfarfodydd y gallai fod eu hangen.

168 : AELODAETH Y PWYLLGOR

Nododd y Cyngor na dderbyniwyd unrhyw enwebiadau i swyddi gwag presennol y Pwyllgor.

169 : PENODI LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD LLEOL

Penodi Llywodraethwyr Ysgolion yr Awdurdod Lleol i lenwi swyddi gwag

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor:

Cymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â phenodiadau newydd o lywodraethwyr Awdurdod Lleol i gyrff llywodraethu ysgolion fel yr adroddwyd ar y Daflen Ddiwygio, pob un am gyfnod o 4 blynedd o ddyddiad y penodiad.

170 : PENODI COFIADUR CAERDYDD

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor:

Penodi Ei Hanrhydedd y Barnwr Lloyd-Clarke yn Gofiadur Anrhydeddus Caerdydd yn syth, a thrwy gydol ei chyfnod yn Uwch Farnwr Cylchdaith a Barnwr Preswyl yn Llys y Goron Caerdydd.

171 : GWASANAETH MABWYSIADU CENEDLAETHOL MAETHU CYMRU: CYTUNDEB CYD-BWYLLGOR A THREFNIADAU LLETYOL GAN GYNGOR CAERDYDD

Argymhellwyd y Cyngor i gymeradwyo ymrwymiad Cyngor Caerdydd yn ffurfiol i'r Cyd-bwyllgor arfaethedig ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru

Cytuno ar barhad y trefniant cynnal gan Gyngor Caerdydd ar gyfer swyddogaethau cenedlaethol a chydgysylltu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) Cymru drwy ei Dîm Canolog

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor:

I'r canlynol, i'r graddau y mae'n berthnasol i'w swyddogaethau

1. Cymeradwyo'r Cytundeb Cyd-bwyllgor dros sefydlu Cyd-bwyllgor GMC / Maethu Cymru, ar y ffurflen a nodir yn atodiad 4 i'r adroddiad.

2. Parhau â'r trefniant cynnal gan Gyngor Caerdydd ar gyfer swyddogaethau cenedlaethol a chydlynol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru (GMC) a Maethu Cymru drwy ei Dîm Canolog

3 Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd, y Swyddog A151 a'r Swyddog Monitro i drafod a chytuno ar ffurf y cytundeb ('Cytundeb Lletya') lle bydd Cyngor Caerdydd yn gweithredu fel awdurdod lletyol ar gyfer y cydbwyllgor

## 172 : PENDERFYNIAD CABINET - 56

Nododd y Cyngor benderfyniad brys y Cabinet - 56

## 173 : PENDERFYNIAD SWYDDOG - 37

Nododd y Cyngor Benderfyniad y Swyddog Brys - 35.

## 174 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheol 17 (f) Gweithdrefn y Cyngor, caiff y Cwestiynau Ysgrifenedig a dderbyniwyd i'w hystyried eu cynnwys yng nghofnodion y cyfarfod.